Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb 2020-24

***"Parc Cenedlaethol - Parc Cenedlaethol yw ardal sy'n cael ei gwarchod oherwydd ei chefn gwlad ysblennydd, ei bywyd gwyllt toreithiog a'i hanes hudolus."***

(Anabledd Dysgu Cymru, Geiriadur Ar-lein Hawdd ei Ddeall)

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, h.y. testun hawdd ei ddarllen, testun mawr, sain, a fyddech gystal â chysylltu â gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk / 01646 624800

## Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad** ....... **2**
**Crynodeb – Nodau ac Amcanion Tymor Hir ar Gydraddoldeb** ....... **3**
**Gwybodaeth Cefndir** ....... **5**
Parc ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ....... 5
Ein Dyletswyddau Cydraddoldeb fel Corff Cyhoeddus yng Nghymru ....... 5
Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ....... 7
Amcanion Llesiant a’r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ....... 8
Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – Gwerthfawr a Chydnerth ....... 9
Cynllun Llesiant ac Asesiad ar gyfer Sir Benfro ....... 9
**Sut y gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb 2020-24** ....... **10**
**Y Parc – Tirwedd i Bawb** (Camau gweithredu) ....... **12**
**Ein Gwasanaethau - Hygyrch a Chynhwysol** (Camau gweithredu) ....... **15**
**Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol** (Camau gweithredu) ....... **18**
**Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad** (Camau gweithredu)....... **22**
**Monitro’r Camay Ymlaen a’u Heffaith** ....... **24**
**Atodiad** ....... **25**
Atodiad 1: Parciau Cenedlaethol Cymru - Ein Dull Gweithredu tuag at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant. ....... 25

## Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y gwaith y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ei wneud yn ystod 2020 - 2024 i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nid cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol yn unig yw ein nod, ond hefyd sicrhau yn y meysydd lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf bod yr Awdurdod yn gwireddu profiadau cadarnhaol i bawb.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi nodau tymor hir uchelgeisiol law yn llaw â'n Hamcanion Cydraddoldeb ar draws pedwar maes lle gallwn wneud gwahaniaeth - Y Parc, Ein Gwasanaethau, Ein Gweithlu, a Llywodraethu ac Ymgysylltu.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda staff yr Awdurdod, yr Aelodau a’r gwirfoddolwyr a phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach i gyflawni'r nodau uchelgeisiol sydd yn y cynllun hwn.

**Tegryn Jones - Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

## Crynodeb – Nodau ac Amcanion Tymor Hir ar Gydraddoldeb

| Y Parc – Tirwedd i Bawb |
| --- |
| **Nod Tymor Hir 1:** Creu Parc sy'n Dirwedd i Bawb |
| **Amcan Cydraddoldeb 1:** Erbyn 2024, bydd ein gwaith o hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan i ymwelwyr yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol, a byddwn wedi gwaredu rhai o'r rhwystrau i gael mynediad i'r Parc i'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol. Canlyniad hyn yw bod ystod mwy amrywiol o bobl yn elwa ac yn cael profiad o Rinweddau Arbennig y Parc.<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 2:** Erbyn 2024, byddwn yn sicrhau bod yr atebion a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a glustnodwyd yn y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol ac yn cymryd i ystyriaeth yr Asesiad o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb. |

| Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol |
| --- |
| **Nod Tymor Hir 2:** Bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn gynhwysol yn ddiofyn a bod ein prosiectau yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb |
| **Amcan Cydraddoldeb 3:** Erbyn 2024, bydd gennym staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi a mecanweithiau ar waith i sicrhau ein bod yn dylunio, caffael ac yn cyflawni gwasanaethau hygyrch a chynhwysol.<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 4:** Erbyn 2024, byddwn wedi datblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sydd â budd cadarnhaol i'r rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb, yn enwedig plant a theuluoedd ifainc o ardaloedd difreintiedig. |



Syrffio ar Arfordir Sir Benfro.

## Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir 3:** Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.

**Amcan Cydraddoldeb 5:** Erbyn 2024, bydd gennym mwy o lwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu**.**

**Amcan Cydraddoldeb 6:** Erbyn 2024, byddwn drwy fentrau llesiant, hyfforddiant a pholisïau cysylltiedig yn darparu gweithle sy'n gefnogol ac yn gynhwysol.

**Amcan Cydraddoldeb 7:** Erbyn 2024, byddwn yn lleihau'r bwlch cyflog yn yr Awdurdod rhwng y rhywiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau'r staff yn ein Chwartel Isaf (ar Gyflogau Isaf).

## Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad

**Nod Tymor Hir 4:** Bod ystod amrywiol o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod ac ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc.

**Amcan Cydraddoldeb 8:** Erbyn 2024, byddwn yn creu cyfleoedd i'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein llywodraethiant a'n strwythurau ehangach i'w galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau am y Parc ac am waith yr Awdurdod. Byddwn yn gwella sgiliau llywodraethu cydraddoldeb Aelodau.

**Amcan Cydraddoldeb 9:** Erbyn 2024, bydd gennym fecanweithiau ar waith i alluogi ystod eang o grwpiau a phobl gymryd rhan mewn sgwrs barhaus am y Parc Cenedlaethol.



Y rhai a gymerodd ran ar Daith Gerdded Symudedd a gynhaliwyd yn Saundersfoot.

# Gwybodaeth Gefndir

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol dibenion arbennig annibynnol dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwe wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

"Nodweddion arbennig' y Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw:

- Hygyrchedd
- Daeareg amrywiol
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Amgylchedd hanesyddol cyfoethog
- Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth
- Cymeriad unigryw aneddiadau
- Ysblander arfordirol
- Amrywiaeth y dirwedd
- Ynysoedd
- Lle i anadlu
- Natur anghysbell, llonyddwch a gwylltineb
- Amrywiaeth y profiadau a'r cyfuniad o nodweddion unigol[1]

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gorchuddio ardal ag arwynebedd o 612km2, gydag oddeutu 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat gyda'r Awdurdod yn berchen ar 1% yn unig.

## Ein Dyletswyddau Cydraddoldeb fel Corff Cyhoeddus yng Nghymru

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â sicrhau tegwch i bawb ac mae'n canolbwyntio ar ddod â gwahaniaethu i ben, hyrwyddo cyfleoedd a chanlyniadau cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

### Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae APCAP fel Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ni o dan y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol ystyried sut y gallwn gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn ein gweithgareddau beunyddiol o ddydd i ddydd.

---

[1] APCAP, APCAP Cyfleoedd a Heriau Papur Trafod ar gyfer Cynllun Rheoli 2020-2024, 2018, p4

Mae hyn yn golygu wrth arfer ein swyddogaethau, ei bod yn ofynnol i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

a) **ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.**
b) **hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.**
c) **meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.**

Mae rhoi sylw dyledus yn golygu:

a) **dileu neu leihau anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;**
b) **cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;**
c) **annog pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.**

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o ddylunio polisïau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Gall cyflawni'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf.

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Amlinellir y dyletswyddau penodol hyn yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymwneud â'r canlynol:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu Effaith
- Gwybodaeth Cydraddoldeb
- Gwybodaeth Cyflogaeth
- Gwahaniaeth Tâl
- Hyfforddiant Staff
- Caffael
- Adroddiadau Blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiadau Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

### Pwy sy'n cael ei warchod? - Y nodweddion gwarchodedig

Mae pawb yn cael eu gwarchod yn dechnegol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae dyletswyddau cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus yn cyfeirio at bobl sydd â 'nodweddion gwarchodedig' penodol. Mae'r gyfraith wedi'i chynllunio i amddiffyn pobl a wahaniaethir mewn perthynas â'r nodweddion hyn. Y nodweddion gwarchodedig yw –

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil - gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

O dan y Ddeddf, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid rhywun oherwydd bod ganddo neu y canfyddir bod ganddo “nodwedd warchodedig” neu eu bod yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchodedig.

## Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- **Hyrwyddo cyfleoedd i’r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn datgan bod gan yr Awdurdod ddyletswydd wrth arddel y dibenion uchod, i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n nodi sut y dymunai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid yn unig gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r ddwy ddogfen hon yn destun Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Amcanion Llesiant a'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau

Mae Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol yr Awdurdod wedi'i strwythuro i ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gan yr Awdurdod saith Amcan Llesiant sy'n cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru, gan gynnwys amcan penodol sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb. Bydd y camau cydraddoldeb a nodir yn y cynllun hwn yn cael eu prif ffrydio i'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol a'i weithgareddau adrodd a monitro. Ein hamcanion Llesiant yw:

| |
|---|
| **Llewyrchus:** Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. |
| **Cydnerth:** Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. |
| **Iechyd a Lles:** Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o’r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo’u hamgylchiadau. |
| **Cydraddoldeb:** Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi’i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC. |
| **Cymunedol:** Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i’w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol. |
| **Diwylliant:** Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal. |
| **Byd-eang:** Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. |

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy:

Dyma sut ydym wedi ystyried y pum ffordd o weithio wrth ddatblygu'r cynllun hwn:

| | |
|---|---|
| Hirdymor | Mae'r Cynllun hwn yn clustnodi camau fydd yn gymorth i roi sylfaen gref ar gyfer newid tymor hwy. |
| Atal | Mae'r Cynllun yn cael ei lywio gan ganfyddiadau Asesiad yr Awdurdod o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar ei Gynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol. |
| Integreiddio | Bydd y camau o fewn y cynllun yn cael eu hintegreiddio i Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol yr Awdurdod. |
| Cydweithio | Bu’r Awdurdod yn gweithio drwy gydweithredu â chyrff cyhoeddus rhanbarthol eraill i gynnal gweithgareddau ymgynghori ar y cyd i fwydo gwybodaeth i'r cynllun. |
| Cynnwys | Mae'r Cynllun hwn yn cael ei lywio gan adborth o arolygon barn rhanbarthol a gweithgareddau ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu â’r staff. |

## Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – Gwerthfawr a Chydnerth

Fis Gorffennaf 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol yn ei ddatganiad ysgrifenedig Tirweddau Dynodedig: Gwerthfawr a Chydnerth**.** Mae datblygu'r blaenoriaethau hyn yn dilyn ystyriaeth Llywodraeth Cymru o ganlyniadau'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig, Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Symud Cymru Ymlaen.

Roedd y datganiad yn amlygu bod angen i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru

1. **Fod yn "Dirweddau i bawb"**
2. **Estyn allan y tu hwnt i gynulleidfa draddodiadol**
3. **Ymgysylltu â chroestoriad mwy amrywiol o gymdeithas Cymru fel bod ganddynt ran yn y tirweddau cenedlaethol**

Mae'r datganiad yn nodi:

*"Er ei bod yn bwysig bod pob rhan o gymdeithas yn cael profi'r tirweddau dynodedig hyn, dylid rhoi sylw penodol i blant a theuluoedd ifanc o ardaloedd o amddifadedd. Rhaid cymryd camau i helpu i daclo'r anghydraddoldebau yng nghanlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd y tlotaf yn ein cymdeithas. Bydd y gwaith hwnnw'n cynnwys rhaglenni addysg awyr agored a chyfleoedd i wirfoddoli."*

## Cynllun Llesiant ac Asesiad ar gyfer Sir Benfro

Mae'r Awdurdod wedi ystyried Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a thystiolaeth o'r Asesiad Llesiant cysylltiedig ar gyfer Sir Benfro wrth ddatblygu'r cynllun hwn.

Y meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun yw

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1:** Byw a Gweithio | **Blaenoriaeth 3**: Mynd i'r Afael â Chymunedau |
| **Blaenoriaeth 2**: Cymunedau dyfeisgar | **Blaenoriaeth 4:** Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd |

Mae 8 prosiect integredig yn cael eu cyflawni drwy'r Cynllun, gyda'r prosiectau canlynol yn berthnasol iawn i'r cynllun cydraddoldeb:

- Fframwaith Traws Newid Recriwtio a Chyflogaeth
- Dathlu'r Awyr Agored
- Cyfranogiad y Gymuned
- Deall ein Cymunedau
- Ymwneud Ystyrlon gan Gymunedau

## Sut y gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb 2020-24

Roeddem wedi clustnodi ble yn union y gall ein hamcanion a chynllun cydraddoldeb gael yr effaith fwyaf drwy:

### Ystyried y dystiolaeth:

- Dogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018'
- Y dystiolaeth a'r effeithiau a glustnodwyd yn yr Asesiadau o Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig yr Awdurdod ar Gydraddoldeb
- Yr ymchwil a'r data ehangach sy'n berthnasol i ardal y Parc a gwaith yr Awdurdod
- Perfformiad yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol
- Dadansoddiad o ddata recriwtio, gweithlu a chyflogau yr Awdurdod

### Ystyried yr adborth o'r ymgysylltu:

- Ymgynghori rhanbarthol â chyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys arolwg o farn y cyhoedd a grwpiau ffocws rhanddeiliaid
- Ymgynghori ar Gyfleoedd a Heriau gyda grwpiau fel rhan o'r gwaith adolygu cychwynnol ar gyfer y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig
- Arolwg ymgysylltu â'r staff

### Ystyried arferion gorau:

- Dysgu o'r prosiectau, cynlluniau a mentrau arferion gorau sefydliadau eraill e.e. Addewid Amser i Newid Cymru

### Ystyried cysylltiadau strategol:

- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol – Gwerthfawr a Chydnerth
- Themâu blaenoriaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o 'A yw Cymru'n Decach?'
- Ein Hamcanion Llesiant a Nodau Llesiant Cymru
- Cysylltiadau â'n Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig
- Cynllun Llesiant Sir Benfro
- Amcanion drafft Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus rhanbarthol eraill
- Dangosyddion llesiant cenedlaethol ac Adroddiad Ystadegol Llesiant yng Nghymru

Sut y gwnaethom ddatblygu ein Cynllun

Gweler y ddofen ategol Tystiolaeth ac Ymgysylltu i gael mwy o wybodaeth am y modd y dylanwadodd yr uchod ar greu ein Hamcanion Cydtaddoldeb a'n camau gweithredu. Hefyd y ddogfen hon yw ein Hasesiad  o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb.

# Y Parc - Tirwedd i Bawb

**Nod Tymor Hir 1:** Creu Parc sy’n Dirwedd i Bawb

**Amcan Cydraddoldeb 1:** Erbyn 2024, bydd ein gwaith o hyrwyddo’r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan i ymwelwyr yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol, a byddwn wedi gwaredu rhai o’r rhwystrau i gael mynediad i’r Parc i’r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu’r rhai sy’n wynebu rhwystrau penodol. Canlyniad hyn yw bod ystod mwy amrywiol o bobl yn elwa ac yn cael profiad o Rinweddau Arbennig y Parc.

**Amcan Cydraddoldeb 2**: Erbyn 2024, byddwn yn sicrhau bod yr atebion a ddatblygwyd i fynd i’r afael â’r cyfleoedd a’r heriau a glustnodwyd yn y Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol ac yn cymryd i ystyriaeth yr Asesiad o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb.

## Meysydd Blaenoriaeth a Chamau Gweithredu

### Cyfathrebu a Dehongli

- ✓ Gall y modd yr ydym yn hyrwyddo'r Parc a’r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gennym ddylanwadu ar y ffaith a yw pobl yn ymwybodol o’r Parc a’r modd i gael mynediad i’r Parc. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad yw pobl erioed wedi ymweld â chyfleoedd yn y Parc nac wedi cymryd rhan ynddynt neu os oes ganddynt anghenion mynediad penodol ac anghenion eraill. Mae'r prosiect Mosaic wedi clustnodi’r rôl bwysig sydd gan ddelweddau sy’n cynrychioli’r Parc mewn unioni’r canfyddiadau ynghylch ar gyfer pwy y mae’r Parciau Cenedlaethol, yn enwedig ar gyfer pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- ✓ Ar draws y Parc mae ystod o ddeunydd dehongli a phrofiadau yn helpu pobl i ddysgu am y Parc a'i Rinweddau Arbennig. Po fwyaf cynhwysol y mae eu dyluniad, mwyaf i gyd y gall eu cyrhaeddiad a'u heffaith fod.

### Prosiectau a Chynlluniau sy'n Cynyddu Mynediad

- ✓ Mae’r Archwiliad Hamdden ar gyfer Mynediad i'r Anabl yn Sir Benfro yn sylfaen gref o dystiolaeth leol am y rhwystrau y gall pobl anabl eu hwynebu wrth gael mynediad i’r cyfleoedd hamdden yn y Parc.
- ✓ Mae'r Awdurdod wedi cefnogi mynediad cynyddol i Hawliau Tramwy Cyhoeddus drwy ei brosiect Mynediad i Bawb a’r canllaw cerdded i bawb. Mae hyn yn thema sy'n rhan annatod o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018-2028. Bydd prosiect yr Awdurdod Profiad i Bawb yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i glustnodi meysydd blaenoriaeth lle gellir gwneud gwelliannau mewn lleoliadau ledled y Parc.

- ✓ Mae cymunedau yn y Parc hefyd ar flaen y gad o ran dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu cymunedau cynhwysol. Mae Tyddewi, lle mae Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc wedi'i lleoli, yn Ddinas sy'n Gyfeillgar i Ddementia.
- ✓ Mae trafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth hygyrch, yn rhwystr allweddol i bobl sy'n byw yn y Parc ac i ymwelwyr, sy'n ymddangos dro ar ôl tro yn y sylfaen dystiolaeth. Mae hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy yn faes allweddol yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol yr Awdurdod. Mae cyfyngiadau i'r effaith y gall yr Awdurdod ei chael yn y maes hwn. Fodd bynnag, drwy weithio mewn partneriaeth i ddatblygu atebion lleol, mae cyfleoedd i wneud gwahaniaeth fel y gwelir gan y cymorth ariannol a ddarperir i Bartneriaeth Lonydd Glas o ran y Bysiau Arfordirol.

## Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

- ✓ Roedd yr Asesiad o Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar Gydraddoldeb wedi clustnodi bod angen ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb ar y lefel o ddatblygu prosiectau ar gyfer y Cynllun. Gall ymgysylltu â rhanddeiliaid ac unigolion sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd yn y Parc helpu i'r ymatebion a ddatblygir fod yn gynhwysol.
- ✓ Mae darparu tai fforddiadwy yn arbennig ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd, yn parhau i fod yn fater a glustnodir ar lefel genedlaethol a lleol ac yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae gan yr Awdurdod, fel yr awdurdod cynllunio lleol, rôl allweddol o ran cynorthwyo i ddarparu tai fforddiadwy addas yn y Parc.

| Camau Gweithredu - Byddwn: | | Atebolrwydd | Amserlen |
|---|---|---|---|
| **1** | Yn datblygu mecanweithiau i sicrhau bod deunydd hyrwyddo a dehongli yn ystyried mynediad i'r Parc a bod yn gynhwysol fel mater o drefn. | Cyfathrebu. Dehongli. Canolfannau. | 2020- 22 |
| **2** | Yn datblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sy'n gwella mynediad i'r Parc a chyfleoedd i gyfranogi, gan gynnwys cyflawni'r camau blaenoriaeth a glustnodwyd o'r Prosiect Profiadau i Bawb a pharhau i gefnogi darparu Cadeiriau Olwyn Traeth ar draws y Parc. | Gwasanaethau Cymunedol ac Ymwelwyr. Mynediad. Cyfarwyddyd (Iechyd a Lles/ Twristiaeth.) | Parhaus |
| **3** | Yn gweithio gydag eraill i ddatblygu prosiectau a chynlluniau lleol sy'n helpu i fynd i'r afael â heriau trafnidiaeth yn y Parc. | Tîm Arweinyddiaeth. Cyfarwyddyd - Twristiaeth. | Parhaus |
| **4** | Yn datblygu rhestr wirio prosiectau, y gellir ei rhannu â phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau a ddatblygir i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol. | Swyddog Polisi Cadwraeth. Perfformiad a Chydymffurfiaeth. | 2020-21 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5** | Yn ymgysylltu ag unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a phobl sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd yn y Parc wrth i ni ddatblygu prosiectau sydd â'r nod o gefnogi cyflwyno Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. | Swyddog Polisi Cadwraeth. Grŵp Cynllun Gweithredu Ymgysylltu. | Parhaus |
| **6** | Yn parhau i gefnogi datblygiadau tai fforddiadwy addas yn ardal y Parc, yn unol â CDLl yr Awdurdod. | Polisïau Cynllunio a’r Gwasanaeth Cynllunio | Parhaus |

# Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir 2**: Bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn gynhwysol yn ddiofyn a bod ein prosiectau yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb

**Amcan Cydraddoldeb 3:** Erbyn 2024, bydd gennym staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi a mecanweithiau ar waith i sicrhau ein bod yn dylunio, caffael ac yn cyflawni gwasanaethau hygyrch a chynhwysol.

**Amcan Cydraddoldeb 4:** Erbyn 2024, byddwn wedi datblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sydd â budd cadarnhaol i'r rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb, yn enwedig plant a theuluoedd ifainc o ardaloedd difreintiedig.

## Meysydd Blaenoriaeth a Chamau Gweithredu

### Hyfforddiant a Sefydlu Staff

- ✓ Er mwyn gallu darparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch mae angen i staff a gwirfoddolwyr feddu ar yr ymwybyddiaeth, y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol. Mae cyfnod sefydlu a hyfforddiant effeithiol yn chwarae rhan ganolog yn hyn.
- ✓ Mae'r Awdurdod yn darparu prosiectau iechyd a lles yn gynyddol ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau addysg. Mae ymwybyddiaeth staff o faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn arbennig o bwysig yn y meysydd hyn, gan fod rhai grwpiau wedi wynebu profiadau negyddol yn y gorffennol wrth gyrchu gwasanaethau gan ddarparwyr traddodiadol. Mae angen i ni sicrhau bod ein cynnig iechyd a lles yn brofiad cadarnhaol i bawb.

### Gwasanaethau Cynhwysol o'r cychwyn cyntaf

- ✓ Mae'r Awdurdod yn cynnig cyfleoedd gwych i gael mynediad at brofiadau treftadaeth a diwylliannol a dysgu mwy am y Parc drwy'r cyfleusterau yng Nghastell Henllys, Castell a Melin Caeriw, a chanolfan ymwelwyr Oriel y Parc. Efallai y bydd pobl yn wynebu ystod o rwystrau i fynediad ar y safleoedd hyn oherwydd eu natur. Ar hyn o bryd mae'r canolfannau'n ceisio mynd i'r afael â rhai rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu drwy ddarparu sgwteri symudedd, hyfforddiant staff mewn ymwybyddiaeth o ddementia a chynnal awr dawel yng Nghastell Henllys.
- ✓ Mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod yr offer a'r gwasanaethau digidol y mae'n eu defnyddio yn gydnaws â thechnoleg gynorthwyol, arfer gorau a bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd y Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

- ✓ Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau gallai'r Awdurdod wneud mwy i edrych ar weithgareddau allai gefnogi ei nod o ddarparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch (o fewn fframweithiau rheoleiddio caffael). Gan gynnwys edrych ar yr offer a brynwn, defnyddio cyfleoedd sy’n rhoi budd i’r cymunedau lle bo hynny'n bosibl a sicrhau bod y rhai y gofynnwn iddynt weithio ar ein rhan yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n ystyried ein rhwymedigaethau o ran cydraddoldeb.

## Prosiectau a Chynlluniau - Helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb

- ✓ Mae Datganiad Sefyllfa ‘Gwerthfawr a Chydnerth’ Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y rôl y gall rhaglenni addysg awyr agored a rhaglenni gwirfoddoli ei chwarae wrth helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd ymhlith y tlotaf mewn cymdeithas. Y grwpiau targed penodol a glustnodir ganddynt yw plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig.
- ✓ Mae gan yr Awdurdod gyfoeth o brofiad o gyflawni a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau statudol i gynorthwyo unigolion i elwa o ymgysylltu â'r Parc. Gall hyn amrywio o gyfle cerdded â chymorth, gweithredu cymdeithasol â chymorth a chyfleoedd gwirfoddoli a mentrau ysgolion awyr agored.
- ✓ Mae gwerthuso prosiectau yn chwarae rhan bwysig wrth asesu pa mor llwyddiannus yw prosiectau wrth ymgysylltu â grwpiau targed a'u heffaith ar yr unigolion hynny sy'n cymryd rhan. Gall y wybodaeth hon helpu i lywio’r gwaith o ddatblygu prosiectau yn y dyfodol.

| Camau Gweithredu - Byddwn: | | Atebolrwydd | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 7 | Integreiddio hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb i’r prosesau sefydlu staff a gwirfoddolwyr. | AD. Arweinwyr Tîm. Gwirfoddolwyr. | 2020- 22 |
| 8 | Datblygu cynllun hyfforddi i'r holl staff gael eu hyfforddi ar y modd y gallant gyflawni gwasanaethau hygyrch a chynhwysol ac i glustnodi a dod o hyd i hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr perthnasol. | AD. Arweinwyr Tîm. Gwirfoddolwyr. | 2021- 22 |
| 9 | Cefnogi Canolfannau’r Awdurdod i ymgysylltu ac ymuno â mentrau sy'n cefnogi mynediad ehangach i atyniadau, treftadaeth a'r cyfleoedd celfyddydol. | Rheolwyr Canolfannau. | Parhaus |
| 10 | Clustnodi mecanweithiau i gynorthwyo staff i gaffael a darparu systemau a gwasanaethau digidol sy'n cydymffurfio ag arferion gorau hygyrchedd a rheoliadau'r sector cyhoeddus. | Tîm TG. Cyfathrebu. Arweinwyr Gwasanaeth. | 2020- 21 |
| 11 | Clustnodi cyfleoedd i hyrwyddo ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant yn ein prosesau caffael ac yn ein cysylltiadau â chyflenwyr a chontractwyr. | Tîm Arweinyddiaeth. Arweinwyr Gwasanaeth. Cyllid. | 2020- 22 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **12** | Datblygu a chyflawni prosiectau mewn partneriaeth ag eraill sydd â buddion cadarnhaol i'r rheini sy'n wynebu anghydraddoldebau, yn enwedig plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig (e.e. addysg ac ymgysylltu awyr agored a diwylliannol a phrosiectau hwyluso gweithredu cymdeithasol a gwirfoddoli â chymorth.) | Gwasanaethau Cymunedol ac Ymwelwyr. Mynediad. Cyfarwyddyd (Iechyd a Lles/ Twristiaeth.) | Parhaus |
| **13** | Gwerthuso pa mor effeithiol yw ein prosiectau i lywio'r gwaith o ddatblygu prosiectau yn y dyfodol. | Arweinwyr Prosiectau neu Gynlluniau. Codi Arian. | Parhaus |

## Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir 3:** Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth  mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.

**Amcan Cydraddoldeb 5:** Erbyn 2024, bydd gennym mwy o lwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu**.**

**Amcan Cydraddoldeb 6:** Erbyn 2024, byddwn drwy fentrau llesiant, hyfforddiant a pholisïau cysylltiedig yn darparu gweithle sy'n gefnogol ac yn gynhwysol.

**Amcan Cydraddoldeb 7:** Erbyn 2024, byddwn yn lleihau'r bwlch cyflog yn yr Awdurdod rhwng y rhywiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau'r staff yn ein Chwartel Isaf (ar Gyflogau Isaf).

## Meysydd Blaenoriaeth a Chamau Gweithredu

### Llwybrau Recriwtio a Mynediad i gyflogaeth

- ✓ Yn 2018/19 dim ond 20% o weithlu'r Awdurdod oedd o dan ddeugain oed. Yn aml mae llwybrau i gyflogaeth ar gyfer ymgeiswyr iau yn gyfyngedig i swyddi gwag tymhorol neu rolau sy'n seiliedig ar brosiectau. Roedd ymgysylltu â phobl ifanc yn Sir Benfro yn amlygu eu pryderon ynghylch y rhwystrau a wynebir ganddynt o ran cael swyddi addas yn yr ardal.
- ✓ Ar hyn o bryd mae Coleg Sir Benfro yn datblygu cynllun lleoliad gwaith y mae'r Awdurdod yn rhan ohono. Mae'r Awdurdod yn y gorffennol wedi rhedeg rhaglen lwyddiannus o hyfforddiant 'Sgiliau ar Waith', ond mae'r rhaglen honno wedi dod i ben heb unrhyw fenter ddilynol. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cynnig cyfleoedd datblygu sgiliau drwy'r cyfleoedd gwirfoddoli â chymorth a gweithredu cymdeithasol.
- ✓ Mae data'r Awdurdod ar recriwtio yn dangos nad ydym yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr o ran nodweddion gwarchodedig penodol, yn enwedig o ran Hil ac Ethnigrwydd. Os yw'r Awdurdod yn methu â chynyddu amrywiaeth ymgeiswyr yna ni all gynyddu amrywiaeth ei weithlu. Mae hwn yn faes heriol ac er mwyn gwneud cynnydd ar y mater hwn o fewn cyfnod y cynllun mae angen gweithio gyda sefydliadau eraill mewn sectorau tebyg.
- ✓ Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynllun Llywodraeth y DU 'Hyderus o ran Anabledd'.

## Amgylchedd Cefnogol a Chynhwysol i'r Staff


- ✓ I gael y gorau o'n gweithwyr, mae angen diwylliant gweithle arnom sy'n ddiogel ac yn gynhwysol i bawb. Mae gan yr Awdurdod ystod o fentrau llesiant eisoes ar waith gan gynnwys mynediad at wasanaethau cwnsela a chyfleoedd gweithio ffafriol a hyblyg. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn adolygu'r mentrau a'r polisïau cyfredol i weld a ydynt yn effeithiol ac yn amlygu'r arferion gorau cyfredol.
- ✓ Roedd 13% o weithlu'r Awdurdod yn 2018/19 dros 60 oed, ac mae'n bwysig bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi wrth iddynt fynd yn hŷn o fewn y gweithlu.
- ✓ Mae Rheolwyr Llinell yn ganolog i gyflawni amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn gefnogol ac mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod gan reolwyr llinell y sgiliau angenrheidiol i lwyddo i gyflawni hyn.

## Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a Data Cydraddoldeb

- ✓ Bwlch Cyflog Cymedrig yr Awdurdod rhwng y rhywiau fesul Awr yw 8.91 a Bwlch Cyflog Canolrifol rhwng y rhywiau fesul Awr yw 8.13. (Mae'r Awdurdod yn cyflogi llai na 250 o weithwyr a bydd hyn yn effeithio ar y pwysoli o ran y dull cyfrif a ddefnyddir). Mae hyn yn rhannol yn amlygu bod 69.77% o bobl yn y Chwartel Is (cyflogau isaf) yn fenywod sy'n cynnwys darparwyr digwyddiadau a gweithgareddau, cynorthwywyr oriel a staff arlwyo yng nghanolfannau'r Awdurdod. Mae angen i'r Awdurdod fel corff cyhoeddus sicrhau ei fod yn hyrwyddo egwyddorion gwaith sy'n deg o ran y modd y mae'n gweithredu.
- ✓ I'n galluogi i glustnodi a ydym yn gwneud gwelliannau ac yn mynd i'r afael â heriau, bydd angen i ni barhau i gasglu a dadansoddi data recriwtio, gweithlu a monitro cydraddoldeb cyflogau. Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar Ddata Agored a data cydraddoldeb yn cynnig mwy o gyfleoedd i ni feincnodi ein data yn erbyn data sefydliadau eraill.

| Camau Gweithredu - Byddwn: | | Atebolrwydd | Amserlen |
|---|---|---|---|
| **14** | Cynnal adolygiad cynhwysfawr o brosesau recriwtio a dethol yr Awdurdod i sicrhau tegwch o fewn y prosesau recriwtio, gan gynnwys edrych ar rwystrau posibl i ymgeiswyr iau. | AD. Arweinwyr Tîm. | 2021- 22 |
| **15** | Cymryd rhan yng Nghynllun Lleoliadau Gwaith Coleg Sir Benfro (DGC) a datblygu neu gymryd rhan mewn cynlluniau cysylltiedig eraill (e.e. datblygu cynllun hyfforddiant Sgiliau ar Waith neu ddatblygu cyfleoedd prentisiaeth.) | AD. Arweinwyr Tîm. | Parhaus |
| **16** | Archwilio'r cyfleoedd gyda'r Parciau Cenedlaethol eraill a'r darparwyr cadwraeth a threftadaeth i ddatblygu cynllun i hyrwyddo cyfleoedd gwaith yn y sector i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. | AD. Uwch Reolwyr. | 2020- 22 |
| **17** | Dod yn sefydliad sy'n hyderus o ran anabledd (lefel 1 o leiaf, gan weithio tuag at lefel 2.) | AD. | 2020- 22: Lefel 1<br>2022 -24: Lefel 2 |
| **18** | Cynnal adolygiad o'n holl weithgareddau llesiant a chefnogaeth i'r staff a gweithio gyda chynrychiolwyr staff i ddatblygu cynnig llesiant i staff sy'n amlygu'r arferion gorau ar hyn o bryd. | AD. Grŵp cynrychiolwyr staff. | 2020-22 |
| **19** | Adolygu'r polisïau AD perthnasol i sicrhau eu bod yn amlygu'r arferion gorau ar hyn o bryd o ran hyrwyddo gweithle cynhwysol. | AD. Grŵp cynrychiolwyr staff. | 2020- 22 |
| **20** | Dod o hyd i gyfres o hyfforddiant i reolwyr llinell, a datblygu'r gyfres, i'w harfogi i reoli timau amrywiol a hyrwyddo diwylliant cynhwysol. | AD. Arweinwyr Tîm. | 2020- 22 |
| **21** | Ymgysylltu â staff yn ein Chwartel Is (cyflogau isaf) i archwilio ac adolygu tegwch ein cynnig cyflogaeth iddynt gan gynnwys tâl, oriau gwaith, gweithio oriau hyblyg, dilyniant a hyfforddiant. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) | AD. Uwch Reolwyr. | 2020-21 |
| **22** | Gwneud dadansoddiad pellach i weld y rôl sydd gan y strwythur bresennol o raddio cyflogau swyddi ar ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) | AD. Perfformiad a Chydymffurfiaeth | 2020- 21 |
| **23** | Gwella monitro hyfforddiant a'r broses flynyddol o adolygu perfformiad. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) | AD. Arweinwyr Tîm. | 2022-23 |
| **24** | Cytuno ag addewid EHRC 'Gweithio Ymlaen' a gweithredu ei argymhellion. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) | AD. Arweinwyr Tîm. | 2020-22 |
| **25** | Parhau i fonitro cydraddoldeb yn y gweithle, | AD. | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gan gyfrannu at brosiect Data Agored Llywodraeth Cymru a gwella'r gwaith o ddadansoddi ein data. | Perfformiad a Chydymffurfiaeth | |



# Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad

**Nod Tymor Hir 4:** Bod ystod amrywiol o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod ac ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc

**Amcan Cydraddoldeb 8:** Erbyn 2024, byddwn yn creu cyfleoedd i'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein llywodraethiant a'n strwythurau ehangach i'w galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau am y Parc ac am waith yr Awdurdod. Byddwn yn gwella sgiliau llywodraethu cydraddoldeb Aelodau.

**Amcan Cydraddoldeb 9:** Erbyn 2024, bydd gennym fecanweithiau ar waith i alluogi ystod eang o grwpiau a phobl gymryd rhan mewn sgwrs barhaus am y Parc Cenedlaethol.

## Meysydd Blaenoriaeth a Chamau Gweithredu

### Aelodau a chyfle i ystyried persbectif gwahanol

- ✓ Yn y gorffennol bu'r Awdurdod yn rhan o Gynllun Mentora Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Banc Talent ar gyfer penodiadau cyhoeddus i gynyddu amrywiaeth y rhai sy'n gwneud cais am benodiadau cyhoeddus.
- ✓ Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gyfle i Aelodau'r Awdurdod ystyried gwahanol safbwyntiau ac effeithiau polisïau a phenderfyniadau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Gall hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth helpu i roi'r sgiliau i'r Aelodau sy'n ymwneud â llywodraethu cydraddoldeb.

### Llwybrau i Bobl Ifanc a Gwirfoddolwyr ddylanwadu ar yr hyn a wnawn

- ✓ Mae Parcmyn Ieuenctid yr Awdurdod wedi bod yn ymwneud â Maniffesto Ieuenctid yr Ewro Barc ac mewn ennyn ymwybyddiaeth o'r Maniffesto ymhlith yr Aelodau. Roedd hyn yn cynnwys mynychu Cyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i gyflwyno'r Maniffesto a chyfarfod dilynol gyda phobl ifanc eraill ac Aelodau i'w drafod. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn y broses o sefydlu fforwm / pwyllgor ieuenctid.
- ✓ Bellach mae gan yr Awdurdod fforwm gwirfoddolwyr sy'n gyfle i wirfoddolwyr o bob rhan o'r Awdurdod rannu, dysgu a hefyd i ddylanwadu ar waith yr Awdurdod. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn parhau i gefnogi'r fforwm hwn a gweithio i sicrhau bod y fforwm yn denu ystod amrywiol o gyfranogwyr o bob rhan o gynnig yr Awdurdod ar wirfoddoli.

## Sgwrs barhaus am y Parc

- ✓ Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n nodi sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid yn unig gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.
- ✓ Mae'r Awdurdod yn dymuno meithrin ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith cymunedau a rhanddeiliaid drwy hyrwyddo sgwrs barhaus am y Parc a'r polisïau a glustnodwyd sydd o fudd i'r Parc. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl a allai wynebu rhwystrau i ymgysylltu â'r Cynllun drwy fecanweithiau traddodiadol neu sy'n fwy tebygol o ymgysylltu drwy weithgareddau allgymorth wedi'u teilwra.

| Camau Gweithredu - Byddwn: | | Atebolrwydd | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 26 | Cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol ac ym mhrosesau Llywodraeth Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus. | Uwch Reolwyr. Gwasanaethau Democrataidd. | Wrth i gyfleoedd godi |
| 27 | Defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar Aelodau i asesu effaith polisïau a phenderfyniadau ar nodwedd warchodedig ac fel rhan o'r broses hon ymgysylltu â grwpiau ehangach i grisialu gwahanol safbwyntiau. | Tîm Arweinyddiaeth. Arweinwyr Gwasanaeth. Perfformiad a Chydymffurfiaeth. Aelodau. | Parhaus |
| 28 | Cyflwyno Hyfforddiant i'r Aelodau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. | Gwasanaethau Democrataidd. AD. Aelodau. | Parhaus |
| 29 | Cefnogi datblygiad Aelodau drwy lwyddo i gael statws Siarter Uwch. | Gwasanaethau Democrataidd. Aelodau. | 2020-21 |
| 29 | Gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu a chynnal Fforwm / Pwyllgor Ieuenctid APCAP i helpu i lywio gwaith yr Aelodau a'r Awdurdod. | Gwasanaethau Cymunedol. Gwasanaethau Democrataidd. | Parhaus |
| 30 | Gweithio gyda gwirfoddolwyr i adeiladu ar Fforwm Gwirfoddolwyr yr Awdurdod a'i gynnal i helpu i lywio gwaith yr Awdurdod ac i sicrhau bod y fforwm yn denu ystod amrywiol o wirfoddolwyr o bob rhan o gynnig yr Awdurdod ar wirfoddoli. | Gwasanaethau Cymunedol Cydlynydd Gwirfoddolwyr. Gwasanaethau Democrataidd. | Parhaus |
| 31 | Cynnal mecanweithiau a mentrau allgymorth sy'n helpu'r Awdurdod i ddatblygu sgwrs barhaus am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. | Swyddog Polisi Cadwraeth. Grŵp Cynllun Gweithredu Ymgysylltu. | Parhaus |

## Monitro’r Camau Ymlaen a’u Heffaith

Bydd y camau a glustnodir yn y cynllun hwn yn cael eu prif ffrydio yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau Blynyddol yr Awdurdod, gyda chamau gweithredu yn cael eu blaenoriaethu'n flynyddol ar draws amserlen 2020-2024 y cynlluniau.

Mae cynnwys camau gweithredu o fewn cynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod a gymeradwyir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac a gyhoeddir ar ein gwefan yn sicrhau:

- ✓ Bod camau gweithredu yn cael eu prif ffrydio i waith cyffredinol yr Awdurdod, gan sicrhau atebolrwydd ar draws y timau o ran cyflawni’r camau gweithredu a'u hamcanion cysylltiedig.
- ✓ Y gellir rhoi Mesurau Addas yn eu lle ar gyfer camau perthnasol.
- ✓ Bod y camau gweithredu a’r mesurau a’r effeithiau cysylltiedig yn cael eu crisialu a’u monitro ar system rheoli perfformiad yr Awdurdod.
- ✓ Bod y camau gweithredu a’r mesurau a’r effeithiau cysylltiedig yn cael eu dwyn i sylw’r Aelodau drwy adroddiadau perfformiad a gyflwynir i Bwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol. Mae hyn yn gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a'u hamcanion cysylltiedig. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar dudalennau pwyllgor gwefan yr Awdurdod.
- ✓ Bod y perfformiad ar gydraddoldeb yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad blynyddol ar gyflawni amcanion llesiant (cynllun gwella rhan 2), ac y cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan yr Awdurdod.
- ✓ Fel rhan o ddatblygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod, y byddwn yn adolygu’r cynnydd yn erbyn ein camau gweithredu a'n hamcanion.
- ✓

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gymryd rhan ym mhrosiect Data Agored Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chyhoeddi mewn fformat data agored y data monitro cydraddoldeb yn y gweithle ac mewn recriwtio.

Noder os gwelwch yn dda y gallai fod angen cymryd camau eraill i gyflawni’r amcanion yn ystod cyfnod y cynllun, ac os mai hyn fydd yn wir bydd y camau hynny yn cael eu clustnodi fel rhan o ddatblygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod.

Atodiad 1: Parciau Cenedlaethol Cymru - Ein Dull Gweithredu tuag at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant.